**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); P Davis (Pennaeth yr Ystafell Reoli); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); C Nott (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu Dros Dro); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dim

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 GORFFENNAF 2016

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB

5.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb refeniw ddrafft yr ATA ar gyfer 2017-18. Ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei setliad refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer llywodraeth leol, a nodwyd bod y setliad i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, ar gyfartaledd, fymryn yn well na'r disgwyl, gyda 0.28% o gynnydd ar draws y rhanbarth.

5.2 Drwy waith gweithgor y Cynllun Gwella, cydnabuwyd na ellid canfod unrhyw arbedion arwyddocaol pellach yng nghyllideb yr ATA ac y byddai'n rhaid i unrhyw arbedion mawr pellach gael eu canfod drwy ostwng lefel y gwasanaethau. Ar sail gwaith gweithgor y Cynllun Gwella, mae amcanion gwella'r ATA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

5.3 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y risgiau sy'n wynebu'r ATA o ran y 'materion anhysbys', gan gynnwys dyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl, cynyddu lefelau gweithgarwch, a gostwng neu ddileu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Ond ar sail y costau y gwyddom amdanynt ac a ragwelid, gan gynnwys yr ardoll prentisiaethau, chwyddiant prisiau annewisol, a disgwyl 1% o ddyfarniad cyflog, roedd amcangyfrif o'r gwahaniaeth rhwng cost cyllideb barhad a chyllideb wedi'i rhewi yn dangos bod angen cynnydd o £1.7 miliwn er mwyn cael cyllideb fantoledig yn 2017-18. Er bod gan yr ATA £2.6 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn, mae hyn yn rhan o'r strategaeth i ohirio toriadau i'r gwasanaethau mor hwyr â phosibl ac felly, fel y bu'r Aelodau'n trafod o'r blaen, byddai'n ddoeth gohirio'r defnydd o gronfeydd wrth gefn tan 2018-19. Felly, yn unol â'r strategaeth ariannol, cynghorwyd yr Aelodau i ystyried cynyddu cyfraniadau'r awdurdodau lleol i gefnogi cyllideb 2017-18.

5.4 Bu'r Aelodau'n trafod yr wybodaeth a ddarparwyd a'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu grantiau; cytunwyd i anfon rhagor o wybodaeth at yr Aelodau am y grantiau y mae'r ATA yn eu derbyn. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd fod yr ATA wedi cytuno eisoes i roi gorau i unrhyw raglenni a ariennir gan grantiau, er enghraifft y Ffenics, os daw'r grant i ben.

5.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r rhagdybiaethau y gosodwyd y gyllideb refeniw ddrafft arnynt ar gyfer 2017-18;**

**(ii) cadarnhau'r argymhelliad i'r Awdurdod sef y dylid llunio cyllideb 2017-18 ar sail lefel bresennol ygwasanaethau;**

**(iii) argymell i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2016 ei fod, yn unol â'r strategaeth ariannol dair blynedd, yn cymeradwyo cynnydd yn y cyfraniadau gan y cynghorau cyfansoddiadol ar gyfer 2017-18.**

6 MONITRO PERFFORMIAD 2016-17

6.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad monitro perfformiad am hanner cyntaf y flwyddyn, sef Ebrill – Medi 2016.

6.2 Yn gyffredinol, roedd y ffigyrau perfformiad yn cael eu hystyried yn rhai cadarnhaol, gan fod y rhan fwyaf o'r categorïau'n dangos gwelliant neu wedi aros yn debyg iawn o gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Er hynny, bu mymryn o gynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ac yn anffodus bu tair marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, gan aros cadarnhad gan y Crwner.

6.3 Bu gostyngiad, o 33% i 28%, yn nifer yr archwiliadau diogelwch yn y cartrefi a atgyfeiriwyd gan sefydliad sy'n bartner inni, a chadarnhawyd bod yr adran diogelwch cymunedol wrthi'n adolygu cytundebau partneriaethau.

6.4 Roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi codi o 307 yn yr un cyfnod yn 2015 i 424 yn y cyfnod perfformiad presennol; roedd hyn yn gynnydd cadarnhaol oherwydd y gwahanol brosiectau treialu, fel cyd-ymateb a'r tîm cymorth cymunedol; gofynnodd yr Aelodau i hyn fod yn glir yn yr adroddiad gan ei bod yn stori lwyddiant. Y rheswm dros y cynnydd yn y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig mewn eiddo nad ydynt yn rhai annomestig oedd fod y system Llinell Ofal gan fwy o bobl felly roedd y cynnydd yma hefyd yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

7 Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

7.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad cryno sy'n tynnu sylw at y prif risgiau strategol i'r Awdurdod. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod eisoes wedi cymeradwyo'r polisi rheoli risgiau strategol sy'n diffinio risg strategol fel 'digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd'.

7.2 Yn y cyfarfod yn Chwefror 2016, roedd yr Aelodau wedi cael gwybod mai'r ddau risg mwyaf ar y pryd oedd ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth a lefel cydnerthedd y Gwasanaeth petai'n colli staff â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes ATAGC; mae'r ddau risg yn dal yn y categori risg 'uchel iawn'. Nodwyd bod y swyddogion yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau ac yn ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd am y risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod.**

8 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL A THREFNIADAU DIOGELWCH TÂN YNG NGWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMRU

8.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiadau a ryddhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac esboniodd fod Andy Bruce o Swyddfa Archwilio Cymru yn methu dod i'r cyfarfod oherwydd salwch.

8.2 **PENDERFYNWYD gohirio'r drafodaeth am yr adroddiad a gwahodd Andy Bruce i gyfarfod nesaf y Panel Gweithredol yn Chwefror 2017.**

9 WYLFA NEWYDD

9.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y goblygiadau i GTAGC o ran sicrhau adnoddau o ganlyniad uniongyrchol i gynlluniau i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear yn Wylfa, yn ogystal â datblygiadau cysylltiedig.

9.2 Nodwyd bod yr adroddiad hwn y cyntaf o blith llawer, a rhoddodd drosolwg o'r prosiect a'r holl ddatblygiadau cysylltiedig i'r Aelodau. Cydnabyddir na welwyd prosiect o'r maint hwn erioed o'r blaen yng Ngogledd Cymru, a bydd yn effeithio ar bob gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth. O ran GTAGC, rhaid gweithio gyda'r datblygwyr i dynnu sylw at unrhyw bryderon yn ystod y cyfnod cynllunio ac yna i gynnal gweithgareddau diogelwch tân i fusnesau a rhoi cyngor ac addysg diogelwch cymunedol ymysg y gweithlu. Hefyd, bydd angen gwneud cryn dipyn o waith cynllunio a hyfforddi gweithredol ar gyfer argyfyngau.

9.3 Roedd yr Aelodau'n cytuno ei bod yn hanfodol fod GTAGC yn sicrhau'r adnoddau cywir ar gyfer y prosiect ac felly roeddent yn cefnogi'r cynllun i gael Rheolwr Grŵp i weithio'n llawn amser ar brosiect Wylfa fel un pwynt mynediad ac i fedru cynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth bob amser. Bydd y swydd am ddeuddeng mis i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o estyniadau pellach yn dilyn adolygiadau blynyddol. Caiff aelodau ychwanegol o'r staff eu secondio i'r prosiect yn ystod cyfnodau prysur yn amserlen Wylfa Newydd, fel y bo'r angen.

9.4 Roedd yr Aelodau'n pryderu am y gost sy'n gysylltiedig, ac er bod achos busnes wedi cael ei wneud i Horizon i ofyn iddynt ad-dalu costau sy'n gysylltiedig, teimlai'r Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru sylweddoli arwyddocâd y prosiect a chyfrannu tuag ag gostau adnoddau GTAGC tuag at y prosiect.

9.5 Bu'r Aelodau'n trafod y prosiect yn hirfaith, gan gynnwys yr effaith ar rwydwaith y ffyrdd a sut y gallai hynny, yn ei thro, effeithio ar allu cerbydau brys i gyrraedd digwyddiadau mewn amser rhesymol.

9.6 **PENDERFYNWYD nodi goblygiadau datblygiad Wylfa Newydd ar gyfer GTAGC a chefnogi'r dull a ddilynir i sicrhau adnoddau cywir ar gyfer y gwaith pwysig yma.**

10 DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015

10.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a'r gofynion ar GTAGC.

10.2 Nodwyd bod rhaid i gynllun hyfforddi ar gyfer y staff gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Mawrth 2017 a'i gyhoeddi ar wefan GTAGC cyn pen 12 wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw. Caiff yr holl staff eu hyfforddi erbyn Mawrth 2018 yn unol â'r gofyniad.

10.3 Roedd yr Aelodau'n gefnogol iawn i'r Ddeddf a'r cynllun hyfforddi ar gyfer y staff. Ond roeddent yn awyddus i weld yr elfen cost yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ac yn teimlo y byddai hyn yn dangos y gwaith ataliol ychwanegol sy'n mynd ymlaen yn GTAGC.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac yn arbennig y gofynion hyfforddi ar gyfer y staff fel y nodir yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

Aeth pob aelod o'r staff, heblaw'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Glerc, allan o ystafell y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.

11 Y DIWEDDARAF AM BARHAD BUSNES

11.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad am faterion parhad busnes yn y Gwasanaeth.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**